CYNGOR SIR DINAS A SIR CAERDYDD
GORCHYMYN DIOGELU MANNAU CYHOEDDUS ARFAETHEDIG (HEOL Y GOGLEDD A BLACKWEIR TERRACE) 2020

Mae Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd ("y Cyngor") wrth arfer ei bwerau dan Adrannau 59, 64 a 72 Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 ("y Ddeddf") a phob pŵer galluogi arall, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu De Cymru ac eraill, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

1. Daw'r Gorchymyn i rym **ar 14 Chwefror 2020** a bydd ar waith am gyfnod o 3 blynedd wedi hynny, oni chaiff ei ddirymu, ei ddiwygio neu ei ymestyn drwy orchmynion pellach gan y Cyngor

2. Mae'r Gorchymyn hwn yn ymwneud â'r rhan honno a ddangosir â chroeslinellau coch ar y Cynllun atodedig ac a ddisgrifir yn Atodlen 1 isod ("yr Ardal Gyfyngedig").

3. Effaith y Gorchymyn hwn yw cyfyngu ar hawliau tramwy cyhoeddus dros yr Ardal Gyfyngedig. Mae'r Gorchymyn hwn yn awdurdodi gwaith i osod gatiau y gellir eu cloi (a gynrychiolir â sêr du ar y Cynllun atodedig) i roi'r cyfyngiad ar waith.

4. Mae'r llwybr amgen i gerddwyr wedi'i farcio'n las ar y Cynllun atodedig ac wedi'i ddisgrifio yn Atodlen 2.

5. Mae'r Cyngor yn fodlon bod yr amodau a nodir yn adrannau 59, 64 a 72 o'r Ddeddf wedi'u bodloni a'i bod yn iawn o dan yr holl amgylchiadau i wneud y Gorchymyn hwn at ddibenion lleihau troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn yr Ardal Gyfyngedig.

6. Mae hyn yn unol ag Adran 59 y Ddeddf:

   a) mae'r Cyngor yn fodlon bod gweithgareddau wedi'u cyflawni yn yr Ardal Gyfyngedig sydd wedi cael effaith niweidiol ar ansawdd bywyd pobl yn yr ardal; ac

   b) mae'r Cyngor yn fodlon bod effaith, neu effaith debygol y gweithgareddau a gyflawnir yn yr Ardal Gyfyngedig:-

      i) yn debygol o fod o natur gyson neu barhaus;
      ii) yn debygol o wneud y gweithgareddau'n afresymol; ac
      iii) yn cyfiawnhau'r cyfyngiadau a osodir gan yr hysbysiad.

7. Os oes unrhyw berson sydd â buddiant yn dymuno cwestiynu dilysrwydd y Gorchymyn hwn ar y sail nad oedd gan y Cyngor unrhyw bŵer i'w wneud neu na chydymffurfiwyd ag unrhyw un o ofynion y Ddeddf mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn, caiff wneud cais i'r Uchel Lys cyn pen chwe wythnos o'r dyddiad y gwneir y Gorchymyn hwn.

8. Bydd y personau hynny a ddisgrifir yn Atodlen 3 wedi eu heithrio rhag darpariaethau'r Gorchymyn hwn.

9. Mae adran 67 y Ddeddf yn ei gwneud yn drosedd i berson sydd heb esgus rhesymol:

i) wneud unrhyw beth y gwaherddir y person rhag ei wneud gan y Gorchymyn hwn;
ii) methu â chydymffurfio â gofyniad y mae'r person yn destun iddo o dan y Gorchymyn hwn.

Mae person sy'n euog o dramgwydd o dan yr adran hon yn agored, o'i gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy heb fod yn uwch na lefel 3.

Atodlen 1

Yr Ardal Gyfyngedig	Y lôn y tu cefn i 56 i 100 Heol y Gogledd a 15 i 59 Blackweir Terrace.
Lleoliad y Rhwystr	2 gyfyngiad ar ffurf gatiau y gellir eu cloi i'w gosod wrth y fynedfa i'r ardal gyfyngedig, wedi'u marcio â sêr du ar y Cynllun. Mae'r gatiau wedi'u lleoli rhwng cefn rhifau 1 i 8 Tŷ'r Gored Ddu a 56 Heol y Gogledd; a rhif 15 Blackweir Terrace a 100 Heol y Gogledd.

Atodlen 2

Y ffordd amgen:

i) Ar hyd priffyrdd i ochr 15 Blackweir Terrace, y tu blaen i 15 – 59 Blackweir Terrace, y tu blaen ac i ochr 1 – 8 Tŷ'r Gored Ddu, y tu blaen ac i ochr 56 Heol y Gogledd a'r tu blaen i 56 – 100 Heol y Gogledd.

Atodlen 3

Ni fydd y cyfyngiad y cyfeirir ato ym mharagraff 3 y Gorchymyn yn gymwys i feddianwyr mangreoedd sy'n ffinio â'r ardal gyfyngedig berthnasol neu sy'n gyfagos iddi, swyddogion y Cyngor, yr heddlu na'r gwasanaethau tân neu ambiwlans y mae ganddynt achos i ddefnyddio'r ardal gyfyngedig wrth gyflawni eu pwerau a'u dyletswyddau statudol ac unrhyw ymgymerwr statudol sydd angen mynediad i'w gyfarpar.

Dyddiad: 2020

GOSODWYD SÊL GYFFREDIN
CYNGOR SIR
DINAS A SIR
CAERDYDD yma
ym mhresenoldeb:-

Llofnod Awdurdodedig

THE COUNTY COUNCIL OF THE CITY AND COUNTY OF CARDIFF
PUBLIC SPACES PROTECTION ORDER (NORTH ROAD AND BLACKWEIR TERRACE) 2020

The County Council of the City and County of Cardiff ("the Council") in exercise of its powers under section 59, 64 and 72 of the Anti-social Behaviour, Crime and Policing Act 2014 ("the Act") and all other enabling powers and following consultation with the Chief Officer of South Wales Police and others hereby makes the following Order:

1. The Order shall come into operation on 14 February 2020 and shall have effect for a period of 3 years thereafter, unless revoked, amended or extended by further orders of the Council.

2. This Order relates to the part shown hatched red on the attached Plan and described in Schedule 1 below ("the Restricted Area").

3. The effect of this Order is to restrict the public right of way over the Restricted Area. This Order authorises the installation of lockable gates, identified by black stars on the attached Plan, which will give effect to the restriction.

4. The alternative route for pedestrians is marked in blue on the attached Plan and is described in Schedule 2.

5. The Council is satisfied that the conditions set out in section 59, 64 and 72 of the Act have been satisfied and that it is in all the circumstances expedient to make this Order for the purposes of reducing crime and anti-social behaviour in the Restricted Area.

6. In accordance with section 59 of the Act:

   a) the Council is satisfied that activities have been carried out in the Restricted Area which have had a detrimental effect on the quality of life of those in the locality; and

   b) the Council is satisfied the effect, or likely effect of the activities carried out on the Restricted Area:-

      i) is likely to be of a persistent or continuing nature;
      ii) is likely to make the activities unreasonable; and
      iii) justify the restrictions imposed by the notice.

7. If any interested person desires to question the validity of this Order on the grounds that the Council had no power to make it or that any requirement of the Act has not been complied with in relation to this Order, he or she may apply to the High Court within six weeks from the date on which this Order is made.

8. Those persons described in Schedule 3 shall be exempt from the provisions of this Order.

9. Section 67 of the Act makes it is an offence for a person without reasonable excuse:

   i) to do anything that a person is prohibited from doing under this Order;

ii) to fail to comply with a requirement to which a person is subject under this Order.

A person guilty of an offence under this section is liable on summary conviction to a fine not exceeding level 3.

Schedule 1

Restricted Area	The lane to the rear of 56 to 100 North Road and 15 to 59 Blackweir Terrace.
Location of Barrier	2 No. restrictions in the form of lockable gates to be placed at the entrance to the restricted area, marked by black stars on the Plan. The gates are located between the rear of numbers 1 to 8 Blackweir House and 56 North road; and number 15 Blackweir Terrace and 100 North Road.

Schedule 2

The alternative route:

i) Via highways to the side of 15 Blackweir Terrace, in front of 15 – 59 Blackweir Terrace, to the front and side of 1 – 8 Blackweir House, to the front and side of 56 North Road and in front of 56 – 100 North Road.

Schedule 3

The restriction referred to in paragraph 3 of the Order shall not apply to the occupiers of premises adjoining or adjacent to the relevant Restricted Area, an officer of the Council, the Police, and Fire or Ambulance Services who have cause to use the Restricted Area in the performance of their statutory powers and duties and any statutory undertaker requiring access to their apparatus.

Dated this 23rd day of January 2019

THE COMMON SEAL OF THE COUNTY COUNCIL OF THE CITY AND COUNTY OF CARDIFF was hereunto affixed in the presence of:-

Authorised signatory

Lon o gefn o North Road (56-100) /Blackweir Terrace (15-59)
Lane to the rear of North Road (56-100) / Blackweir Terrace (15-59)

© Crown copyright and database rights 2019 Ordnance Survey 100023376

Lon o gefn o North Road (56-100) /Blackweir Terrace (15-59)
Lane to the rear of North Road (56-100) / Blackweir Terrace (15-59)



© Crown copyright and database rights 2019 Ordnance Survey 100023376